## Gweddi yn y Grawys

Trown atat, Ein Tad, mewn diolchgarwch am yr Efengyl:
Efengyl a ddaeth atom mewn person a thrwy berson, Iesu o Nasareth;
Efengyl sydd i bob person, beth bynnag ei liw a'i le, ei iaith a'i genedl;
Efengyl sy'n cydio person wrth berson yn un teulu cymodlon a thangnefeddus;
Efengyl sy'n rhoi urddas i berson, yn adeiladu cymdeithas, ac yn dyrchafu cenedl.
Diolchwn yn arbennig am ddylanwad yr Efengyl ar ein cenedl ni'r Cymry, ac am y diwygiadau crefyddol pwerus a'u hetifeddion ym mhob cenhedlaeth.
Diolchwn i Ti am ddylanwad yr Efengyl ar y rhai a aeth o'n blaen ac a fu'n arloesi'r ffordd ar gyfer cenhadon Gobaith.
Diolchwn i Ti am nad wyt wedi gadael Cymru'n gwbl ddi-dyst o ddyddiau plentyndod ein cenedl hyd ein dyddiau dyrys ni.
Diolchwn i Ti am y rhai sydd heddiw'n tystio am yr hyn a gyflawnaist Ti erioed, ac yn arbennig yr hyn a gyflawnaist trwy Iesu Grist, a hefyd am yr hyn yr wyt yn ei gyflawni drwyddynt hwy.

Gweddïwn ar i Ti ein hysbrydoli ninnau i fod ar dân i dystio i Iesu Grist, a bod yn agored bob amser i Ti gyflawni rhywbeth ynom a thrwom fel y daw eraill, drwom ni, i adnabod dy gariad yn Iesu Grist. Amen.

## Gweddi'r Gynulleidfa yn y Grawys

Diolchwn yn arbennig am etifeddiaeth Gristnogol y Cymry o ddyddiau cynnar y seintiau i'r Diwygiad Protestannaidd ac i'r Diwygwyr Methodistaidd, ac am eu dylanwad ar y tirlun a'r trigolion.

Gweddïwn ar i Ti ein hysbrydoli ninnau i fod yn egnïol a brwdfrydig dros y Deyrnas, i dystio i Iesu Grist a'i wirionedd, a bod yn agored bob amser i Ti gyflawni dy wyrthiau. Ond y wyrth fwyaf oedd gwyrth y Groes:

'Fe roes ei ddwylo pur ar led,
fe wisgodd goron ddrain
er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn
fel hyfryd liain main.'

Ei addewid ef yw'r addewid ar ein cyfer ninnau ei ddisgyblion.

'Ac yna caf fod gydag ef
pan êl y byd ar dân,
ac edrych yn ei hyfryd wedd,
gan' harddach nag o'r blaen.'

Gweddïwn y daw eraill trwom ni i adnabod dy Gariad, O Dduw, yn Iesu Grist y Diddanydd anfonedig. Yn ei Enw. Amen.